

Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr (Cyf: EN010112)

Nodyn yr Awdurdod Archwilio ynghylch Archwiliad Safle Digwmni

Archwiliad 5: Amgylchoedd safle'r cais a'r ardal ehangach – 5 a 9 Rhagfyr 2022

Mae'r nodyn hwn yn gofnod byr i roi gwybod i'r Ymgeisydd, Partïon â Buddiant ac unrhyw bartïon eraill am y camau a gymerwyd gan yr Awdurdod Archwilio (ExA). Cynhaliodd yr Awdurdod Archwilio Archwiliadau Safle Digwmni ar ddydd Llun 5 a dydd Gwener 9 Rhagfyr 2022. Cynhaliwyd yr archwiliadau ar droed, o ffyrdd cyhoeddus a hawliau tramwy cyhoeddus. Cynlluniwyd y llwybrau gan ystyried dogfennau cais yr Ymgeisydd ac roedd yr Archwiliadau Safle Digwmni wedi galluogi'r Awdurdod Archwilio i weld ac ymgyfarwyddo â safle'r cais a'r ardal amgylchynol ymhellach, gan gynnwys mewn perthynas â'r amgylchedd goleuo yn y nos.

Mae golygfannau (VP) y cyfeirir atynt yn ymwneud â'r rhai hynny a amlygwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Morlun a'r Dirwedd a'r Effaith Weledol (SLVIA) [AS-027] neu'r Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (LVIA) [AS-029] a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd. Defnyddiwyd delweddau'r Ymgeisydd i helpu i ddelweddu'r Datblygiad Arfaethedig o'r golygfannau hyn.

Gallai'r Awdurdod Archwilio (neu gyfuniad o'i aelodau) gynnal mwy o Archwiliadau Safle Digwmni, maes o law, pan a lle y bydd angen.

Diwrnod 1 – Dydd Llun 5 Rhagfyr 2022

Tywydd: Clir

Gwelededd: Da

Mynychwyd yr archwiliad gan holl aelodau panel yr Awdurdod Archwilio ac fe'i cynhaliwyd yn ystod oriau tywyllwch. Gwnaethant ymweld â SLVIA **VP 4** (Pentir Moelfre wrth y Cerflun), **VP 60** (Foel Lus), **VP 22** (promenâd Abergele), **VP 13** (Pen y Gogarth – Cyfadeilad ger y copa) a **VP 61** (Promenâd Llandudno ger Venue Cymru), yn y drefn honno.

Diwrnod 2 – Dydd Gwener 9 Rhagfyr 2022

Tywydd: Clir

Gwelededd: Da

Mynychwyd yr archwiliad yn ystod y dydd gan aelodau panel yr Awdurdod Archwilio, Jon Hockley, Alex Hutson a Richard Morgan. Gwnaethant ymweld â LVIA **VP 6** (Castell Bodelwyddan) a **VP 3** (Glascoed Road), yn y drefn honno.

Diwedd Archwiliad Safle Digwmni 5